

DOLEN Y TAB 85

10–11 Rhagfyr 2021

Am 11 fore Sul 12 Rhagfyr
**Gwasanaeth Nadolig
yr Ysgol Sul**

**Cofiwch fod angen cofrestru erbyn 6 o'r gloch
nos Wener os am fynychu'r cwrdd!**

YR OEDFAON NESAF

Rhagfyr

19 Oedfa gyda'r Twmiaid ac aelodau o'r gynulleidfa – cerddi, ambell gân ac atgofion Nadoligaidd.

Ni chynhelir oedfa fore Sul 26 Rhagfyr

Ionawr

2 Oedfa Gymun yng ngofal Nia Williams a Geraint Wyn Davies

9 Oedfa yng nghwmni Eleri Jones a'r Parchedig Aled Edwards

16 Oedfa yng ngofal Lowri a Dafydd Roberts a Helen Prosser

23 Y Parchedig Gethin Rhys

30 Oedfa yng nghwmni Rhiannon a Gareth Humphreys ac eraill

Chwefror

6 Y Parchedig Dyfrig Rees

Hefyd ddydd Sul 12 Rhagfyr

12:00 Oedfa Radio Cymru

Oedfa Adfent 3 dan arweiniad John Owain Jones, sy'n weinidog ar Ynys Bute yn yr Alban.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Adfent 3 Cwrdd â bachgen sy'n ysbrydoliaeth i'w gymuned, a gwirfoddolwyr Superkids – elusen sy'n dod â heulwen i fywydau plant difreintiedig.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Trefniadau Arbennig Bore Sul

Parcio

Gofynnir yn garedig i'r rheiny, ac eithrio'r rhai sy'n cludo unigolion anabl, sy'n arfer parcio eu ceir yn y gofod ar bwys y fynwent i barcio wrth Neuadd y Pentref. Bydd hyn yn rhyddhau'r gofod wrth y fynwent i rieni'r plant fydd yn mynychu'r parti sy'n dilyn yr oedfa. Yn ei dro, bydd hyn yn hwyluso trefniadau'r Ffair a gynhelir yn ddiweddarach.

Seddau

Er mwyn cadw criw'r Ysgol Sul a'r gweddill ohonom hyd braich oddi wrth ein gilydd tra byddwn yn y capel, defnyddir dwy fynedfa ac allanfa. Bydd y drws cefn at ddefnydd criw'r Ysgol Sul a'u rhieni yn unig. Gofynnwn yn garedig i bawb arall ddilyn y drefn arferol trwy ddod i mewn a gadael trwy'r drws ym mlaen y Tabernacl. Cewch digon o gyfle wedi gadael yr adeilad i gyfarch aelodau'r teulu ac anwyliad yn niogelwch yr awyr iach!

NEGES ARWYN

**Ar drothwy blwyddyn newydd, mae gan ein
Trysorydd neges bwysig i'w throsglwyddo:**

Cyfraniadau

Yn y Cwrdd Blynnyddol soniais fod costau cynnal y capel yn codi'n flynyddol a gallwn ddisgwyl costau ychwanegol dros y blynnyddoedd nesaf i gynnal ein Cynllun Arloesi a Buddsoddi. Felly, fe apeliais ar yr aelodau i roi ystyriaeth i hyn wrth benderfynu ar lefel eu cyfraniadau tuag at yr achos o hyn allan.

Casgliadau 2021

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa'r Tabernacl (amlenni gwyn) a/neu'r gronfa elusennau (amlenni brown) drwy'r platiau casglu, hoffwn eich atgoffa y byddwn yn cau'r llyfrau eleni ar ddydd olaf y flwyddyn. Fe fydd modd i chi gyflwyno eich cyfraniadau ar y platiau casglu a osodir yn y cyntedd yn ystod yr oedfaon ym mis Rhagfyr, neu anfon siec wedi'i chyflwyno i **Capel y Tabernacl Cyf.** at: **Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU**

Os byddwch yn anfon ataf, rhowch y siec mewn amlen wen neu frown, gan nodi eich rhif aelodaeth. Fel arall, gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown, ynghyd â rhoi'ch rhif aelodaeth yn y blwch sy'n gofyn am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: **Capel y Tabernacl Cyf.**

Cod didoli: **30 – 96 – 72**

Rhif y cyfrif: **03607499**

Diolch yn fawr



Pigion o'r Wasg

Copa26 Dagrau'r Sefyllfa

Yn wahanol i'r drefn arferol, mae'r eitem o'r wasg y carwn dynnu sylw ati y tro hwn eisoes yn gyfarwydd i nifer ohonoch, gan i ni dderbyn rhagflas o'r cynnwys yn y myfyrdod a draddodwyd gan y Parchedig Gethin Rhys yn y Tabernacl ar Sul olaf Tachwedd. Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Polisi Cytûn y mynychodd Gethin y gynhadledd ryngwladol i gynrychioli eglwysi Cymru, ac fel ei fyfyrdod mae'r erthygl yn crynhoi ei brofiadau a'i argraffiadau o'r bythefnos a diwrnod a dreuliodd yn Glasgow yn ystod hanner cyntaf mis Tachwedd. Manteisiwch ar y cyfle i ddarllen yr adroddiad yn llawn yn rhifyn Tachwedd/Rhagfyr o Agora, e-gylchgrawn deufisol Cristnogaeth21 ([Agora 48 mis Tachwedd-Rhagfyr 2021 | Cristnogaeth 21](#)).

Mewn gwrthyferbyniad i'r adroddiadau niferus ar y prif gyfryngau torfol, mae Gethin yn disgrifio'r cyfarfodydd a drefnwyd gan Cymorth Cristnogol ac asiantaethau eraill a roddodd lwyfan i drigolion brodorol i ddod i Glasgow – drwy roi cyfle iddynt rannu eu profiadau o fod eisoes dan fygythiad yr argyfwng hinsawdd, a hynny mewn protestiadau stryd ac mewn cyfarfodydd yn eglwysi'r ddinas, gan na roddwyd cyfle iddynt annerch y prif gynhadledd oedd wedi ei gyfyngu i wladwriaethau. Ymhlith y rhai a wahoddwyd gan fudiadau o Gymru i annerch yn y cyfarfodydd amgen roedd Galois Florez Pizango o'r Wampis ym Mheriw, a Rivelino Verá Gabriel o blith y Guarani ym Mrasil, pobloedd oedd yn rheng flaen y frwydr yn erbyn yr argyfwng hinsawdd. Roedd Gethin wedi rhyfeddu at urddas y rhai sydd dan fygythiad, gan nodi bod eu 'hymarweddiad graslon yn wers i ni i gyd am sut i gyd-fyw ar y blaned fregus hon'.

Mae'r cofnod byw o'i brofiad yn diweddarau'r cynrychiolwyr hynny oedd eisoes wedi cychwyn ar eu taith gartref ar y diwrnod olaf estynedig hwnnw, trwy gyfres o negeseuon *Whatsapp* yn gwbl ddirdynnol. Sut ar wyneb y ddaear mae cysuro cyfeillion newydd o wledydd megis Ynysoedd y Maldives, fydd yn diflannu o dan donnau'r môr ymhen cenhedlaeth os na weithredir ar unwaith i droi'r rhod? Does ryfedd bod llawer ohonynt mewn dagrau wrth dderbyn y newyddion gan Gethin i wladweinwyr pwerus y byd liniaru'r cytundeb ar y defnydd o ffosiliau ar y diwrnod olaf tyngedfenol.

Mae'n cloi'r erthygl trwy adrodd y profiad o fynychu oedfa oedd yn taro tant yn un o Eglwysi Esgobol yr Alban drannoeth y gynhadledd ; roedd honno'n tanlinellu'r cyfrifoldeb arnom fel Cristnogion, sef '*deall ein cyfrifoldeb yn yr 21^{ain} ganrif hon i Gread Duw, ac mewn cymundeb â'r Creawdwr ymdyngedu i fyw y cyfrifoldeb hwnnw. A dim ond wedyn y bydd modd iddo "sychu pob deigrin" o'n llygaid (Datguddiad 21.4)*'.

DIOLCH UNWAITH ETO!

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cefnogaeth anhygoel i'r apêl am ddanteithion Nadoligaidd a nwyddau hylendid ar gyfer elusennau lleol, ac i bawb ddaeth i helpu'r GCC gyda'r dasg enfawr o ddiolli popeth fore lau.

Bydd John Llew a Carys yn wirioneddol falch o gael danfon y cwbl, er mwyn dod ag ychydig o lawenydd y Nadolig i fywydau pobl mewn amgylchiadau anodd.

Mae'r casgliad talebau yn mynd o nerth i nerth, ac yn dal yn weithredol am wythnos arall, a'r casgliad amlenni brown tan diwedd y flwyddyn.

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Cystadleuaeth Emyn

I nodi pen-blwydd *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn 60 oed, estynnir gwahoddiad i chi i ysgrifennu emyn newydd. Gofynnir i'r emyn fod yn waith Cymraeg gwreiddiol, a chofiwch ystyried beth fyddai hyd addas i'w ganu mewn capel neu eglwys. Rhoddir gwobr o £200 i'r emyn buddugol. Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 14 Ionawr 2022.

Anfonwch eich ceisiadau at

emynigymru@rondomedia.co.uk.

(*Gyda llaw, i'r rhai hynny ohonoch sydd â'ch bryd ar lunio emyn-dôn i eiriau'r cynnig buddugol, fe ddaw cyfle i chi gystadlu yn y gwanwyn*).

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk